# Archeoleg Bwyta

Pan oedd archeolegwyr yn cloddio Gelligaer, daethant o hyd i weddillion dwy ysgubor (lle i storio grawn). Mae hyn yn dweud ychydig wrthym am y pethau roedd y Rhufeiniaid yn ei fwyta ond weithiau roedd archeolegwyr yn dod o hyd i dystiolaeth arall hefyd.

Maent yn gyffro i gyd pan fyddent yn dod o hyd i garthion dynol sydd wedi cadw! O hwn gallent ddweud beth roedd pobl yn ei fwyta a hyd yn oed os oedd ganddynt lyngyr yn byw tu mewn iddynt!

Dyma rai o'r eitemau bwyd y cafwyd hyd iddynt ar safleoedd Rhufeinig yng Nghymru.

| Y pethau cafwyd hyd iddynt? | Lle cafwyd hyd iddynt? |
|---|---|
| Esgyrn pysgod | Aberhonddu a Chaernarfon |
| Ceirios | Caerhun (mewn amffora) |
| Esgyrn colomennod | Caerwent |
| Dil (per-lysieuyn) | Caernarfon a Chaerwent |
| Hadau Coriander (per-lysieuyn arall) | Caerwent |
| Gwin | Caerwent (wedi'i ysgrifennu ar amffora) |
| Esgyrn cyw iâr | Caerleon (yn y baddonau) |
| Golwython oen a dafad | Caerleon (yn y baddonau) |
| Asennau mochyn | Caerleon (yn y baddonau) |
| Traed mochyn | Caerleon (yn y baddonau) |
| Cregyn wystrys | Caerleon (yn y baddonau) |
| Hadau radis | Caerleon |
| Corbys | Caerleon |
| Cerrig olewydd | Caerleon |

## Ceisiwch ganfod:

Lle yn union yng Nghymru mae'r mannau yma? Edrychwch i weld a allwch chi ddod o hyd iddynt ar fap.

Beth yw amffora?

Os nad ydych yn adnabod rhai o'r bwydydd, ceisiwch ganfod beth ydynt.

## Meddyliwch:

Pam ydych chi'n meddwl bod cymaint o fwyd wedi'i ganfod yn y baddonau yng Nghaerleon?

Dychmygwch fod gennych blât cinio. Ar hwn mae gweddillion pryd bwyd. Mae esgyrn o adain cyw iâr, sglodion, rholyn o fara gyda hadau arno ac ychydig o bys. O'r pethau ar y plat, pa rai fyddai archeolegydd yn y dyfodol fwyaf tebygol o gael hyd iddynt? Pam?